Megys trwy Dan

Drama gan EBEN ROGERS.



Am ganiatad i chwareu'r Ddrama, rhaid gohebu a'r Awdwr:

18 LLANTWIT STREET, CAERDYDD.

FERNDALE:
W. T. Maddock a'i Gyf., Argraffwyr.
—
1922.

891.662
T63m

CYMERIADAU.

Parch. PHYLIP WILLIAMS, Gweinidog Moriah.

JENKIN, ei fab.

MORFYDD, ei ferch.

Mrs. JOHN, Mrs. ISAAC, Mrs. ~~LEWIS~~ James,, Mrs. FRANCIS, Aelodau Moriah.

Mr. POWELL, Broker yn Birmingham.

CEINWEN, ei ferch.

ELEN, merch amddifad wedi ei noddi gan Mr. Powell.

Mr. NICHOLAS, Broker.

Mr. JOHNSON, Prif Glerc Mr. Powell.

P 46816

ACT I.

Amser, y flwyddyn 1915. *Lle, Cegin y Parch. Phylip Williams, Moriah. Capel mewn rhan hanner-wledig ym Morgannwg. Pyllau Glo tua dwy neu dair milltir o'r pentre. Cegin hytrach yn llwm ond yn lan a chysurus yr olwg. Darluniau ar y mur, bwrdd ac ychydig gadeiriau ar y parth ; y bwrdd tua'r canol. Ffenestr ar y llaw chwith. Drws tu ol i'r ffenestr, a drws arall tu ol i'r bwrdd ar y llaw ddehau. Jenkin y mab,* 18 *oed, cryf ac iach yr olwg, yn eistedd wrth y bwrdd yn darllen, a'i chwaer, Morfydd, tua* 20 *oed, yn clirio'r llestri ar ol boreufwyd, ac yn mwmian canu. Bookcase bychain wrth y mur, yn gwynebu'r gynnulleidfa. Lle tan tu cefn i Jenkin.*

D.S.—Wrth y llaw chwith, golygir llaw chwith i'r Actor.

Jenkin (*yn darllen allan*) : "*Men at some time are masters of their fate.*"

"*The fault, dear Brutus, is not in our stars,*
But in ourselves that we are underlings."

(*Yn uwch*) : "*Underlings* !" (*Morfydd yn sefyll ac yn edrych ar Jenkin, yna Jenkin yn codi'n sydyn ac yn cerdded yn gyflym i gyfeiriad y Bookcase, ac yn edrych fel pe baiyn chwilio am lyfr*).

Morfydd : "Am beth wyt ti'n chwilio, Jenkin ? Am y wers ?

Jenkin (*yn troi'n sydyn ac yn edrych i wyneb ei chwaer, ac yna yn sarug*). "Y wers, ddwedest ti ? Dim rhagor o'r wers i mi. Clywaist ti beth ddarllenais i yn awr ? '*The fault, dear Brutus, is not in our stars, but in ourselves, that we are underlings.*' *Underlings* ! *Underlings* ! Morfydd ! Dyna beth i ni i gyd yn y tŷ yma, ti a minnau ; ie, a nhad hefyd. O ti yn yr Ysgol y Sul diweddaf, wrth gwrs, Clywaist ti'r fath ddwli yn dy fywyd ?

Morfydd : "At beth wyt ti'n cyfeirio ?

JENKIN : "Sylwaist ti ar Miriam Jenkins yn dod i fewn ? Yn ddiweddar, wrth gwrs ; ond yn llawer mwy diweddar nag arfer. Paham ? Paham yn wir. Het newydd, wrth gwrs, a——"

MORFYDD : "Eitha gwir, Jenkin bach, a dim ond siarad am heta newydd buo nhw drwy'r prynhawn, a phan roedd Liza Phillips yn darllen am Dduw yn caru'r byd, fel y rhoddodd ei unig-anedig Fab, dyma Miriam yn gwneud y dosbarth i gyd i chwerthin allan drwy ddweyd yn ddigon uchel i'r holl Ysgol ei chlywed, ' Deg swllt ar ucian, yn wir, am het fel hon ? Dwy bunt, y merch i, bob dima.' "

JENKIN : " A rhoi ceiniog yn y casgliad ? "

MORFYDD : " Ie, ond 'dyw hi ddim yn waeth na'r lleill."

JENKIN : " A bwyta *sweets*, a siarad pob dwli drwy'r prynhawn."

MORFYDD : " Ie, siwr."

JENKIN : " 'R un fath yn nosbarth y bechgyn 'na sy' gen i. Treio darllen ychydig a'u dysgu am Iesu Grist, y Bugail Da, a Twmi Nicholas a Jack Prothero yn mynd â sylw'r class i gyd wrth siarad am y *Boxing Match* yn Llundain a'r *Football Match* yna rhwng y *Rovers* a'r *Barbarians*, a phan ddaeth amser i ofyn am adnoda dyma nhw un ar ol y llall yn gwaeddi nerth 'i ceg, ac mor ddifeddwl â phaganiaid : ' Iesu a wylodd,' ' Duw, cariad yw,' ' Cofiwch gwraig Lot ; yr un adnoda ers misoedd, ac ar ddiwedd yr Ysgol yn rhuthro allan fel lot o gwn hela."

MIRIAM : " Am hyn oedd nhad a thithau yn siarad wrth ddod allan o'r Ysgol ? "

JENKIN : Ie, a dywedais wrtho yn *straight* mod i wedi cael mwy na digon ar y fath ddwli, a nad o'n i ddim yn mynd i boeni rhagor gyda nhw."

MORFYDD : " Dwedest ti hynny ? "

JENKIN : " Do ! "

MORFYDD : " Wyt ti ddim yn meddwl gwneud y fath

beth Fe dorri galon nhad, mae'n meddwl cymaint am yr Ysgol Sul."

JENKIN : "Ysgol Sul (*yn wawdlyd*) ! Ysgol clebran pob sothach, bwyta loshin, trafod busnes pobl ereill a darllen am efengyl tangnefedd gyda'r un anadl. Bah ! ".

MORFYDD : "Ie, Jenkin, ond paid troi dy gefn ar y sefydliad sydd wedi gwneud y fath bethau ardderchog dros Gymru."

JENKIN : "Morfydd ! S' dim eisiau fy adgoffa am yr hyn mae'r Ysgol Sabothol wedi bod i Gymru. Mae nhad wedi gofalu na cha i byth anghofio Jones Llanddowror, Stephen Hughes, Charles o'r Bala, ac ereill o'r hen gewri, ond mae'r dwli sydd yn cael ei siarad gan blant Diaconiaid, a chan aelodau ereill o'r Eglwys, a'u hymddygiad anwaraidd yn Nhŷ Dduw, wedi fy llwyr ddiflasu. Ond gwyddost ti (*yn aros eiliad, yna yn edrych i lygaid ei chwaer ac yn siarad yn fwy cadarn*) y peth sydd wedi suro fy yspryd i'w waelodion yw ein sefyllfa ni fel teulu mewn perthynas a'r Eglwys. Wyt ti'n gwybod ? Rwyf fi yn gwybod fod llawer o'r aelodau yn edrych ar nhad bron fel rhyw gardotyn yn byw ar eu trugaredd hwy, a thithau a minnau fel math o gwn bychain yn casglu y briwsion o dan y bwrdd. Y nefoedd fawr ! 40 mlwydd oed oedd fy mam annwyl yn marw, ie, marw, Morfydd (*yn taro'r bwrdd a'i ddwrn, ac yn siarad yn uwch*) ti wyddost na fyddem wedi ein hamddifadu o'r fam oreu annwyd erioed pe bae wedi cael digon o fwyd da a llai o gecrach yn yr Eglwys; ti wyddost iddi fynd lawer pryd heb gino er mwyn i ni gael tamaid, a gwn fod llawer o'r aelodau yn gallu ffordio moethau bob dydd o'r wythnos. Roedd rhai o'r merched yn gallu fforddio dwy a thair *Costume* newydd y flwyddyn, tra roedd mam yn gorfod aros i lawr hyd hanner nos yn aml, a weithiau drwy gydol y nos, er mwyn cyweirio'n dillad. Mae'r bechgyn yma, llawer ohonynt yn gallu fforddio eu *Motor Cycles*, ac y mae dau o'r aelodau yn berchen eu *Motor Cars*, tra roedd nhad yn ei ddilad llwyd yn gorfod cerdded tair milldir y dydd o'r blaen drwy y glaw mawr i gladdu Mr. Jordan. A dyna Morgan Davies, gweinidog Beulah. Pwy fu yn ei ddilladu am flynyddoedd ? Squire Powell, Penyrallt. A dyma Mr. Davies heddyw yn

ei fedd. A gwyddost ti beth sydd ar *private records* Dr. Thomas?—'*Lack of nourishment.*' Ie, gwelais y geiriau a'm llygaid fy hun. Ie, *lack of nourishment.* Marw o eisieu bwyd! Gweinidog ffyddlon yr Efengyl! Arglwydd mawr!"

MORFYDD: "Ie, ond Jenkin annwyl, nid peth hawdd yw dysgu pobol i fod yn deilwng o'r Efengyl ym mhob dim, mae eisieu amynedd mawr."

JENKIN: "Amynedd! Taw son, da ti. Mae rhai dynion yn canmol amynedd Job, ond canmol Job ddylid am ei ddiffyg amynedd tuag at ddynion coeg ddysgedig, yn siarad am Dduw yr hyn nad oedd iawn."

MORFYDD: "Ond maent yn mynd i wneud ymgais neilltuol un o'r dyddiau nesaf yma. Clywais eu bod yn bwriadu cael Tê a Choncert, a'r elw i gyd i fynd at y weinidogaeth."

JENKIN: Ie, Tê a Choncert, ac efallai dilyn esiampl Eglwys Porthcanol. Clywais fod y *Curate* yno yn gwerthu ticedi *Whist Drive*, a *Soiree*, a Dawns, i helpu'r achos da! Morfydd, wyt ti'n taflu glo ar y tân, yn lle ei ddiffodd. Tê a Choncert! Ie, a nhad a ni'n dau i fynd i ofyn help pob Twm, Dick, a Harry, o bob enwad, a dim enwad o gwbl. A maent yn credu yr â i yn Bregethwr! Na wnaf, byth, byth-oedd. Diaw——(*Morfydd yn edrych arno mewn arswyd; Jenkin yn tynnu ei anadl yn gyflym, yna yn siarad yn gryfach fyth*). '*The fault, dear Brutus, is not in our stars, but in ourselves, that we are underlings.*' Mae cystal pen gennyf ag sydd gan fab y Doctor, ac efallai gwell, a diolch i nhad a mam, sy' wedi aberthu cymaint er mwyn i mi gael mynd i'r *Intermediate*, rwy'n ddigon o scholar yn awr i gychwyn dringo'r ysgol sydd a'i phen yn cyffwrdd â chyfoeth ac annibyniaeth. *Morfydd, rwy'n mynd i wneud arian, fel y gallaf fod yn annibynnol* o geiniogau Twm y Labrwr a chwech cheiniogau y *Grocer* cybyddlyd a chintach dragwyddol Robert Harris. Mae Mr. John Griffiths, Llwynbedw, wedi addaw danfon i Birmingham at hen gyfaill iddo, *Broker* yn y ddinas. Gobeithio cyn pen llawer iawn o flynyddau, y gallaf ddanfon rhywbeth yn ol i dy helpu di a nhad. '*Hitch your wagon to the star.*' Rwyn mynd i fyny i'r llofft i ymofyn y bag yna.

Tor y newydd goreu gelli i nhad pan ddaw gartre o'r Cyrdde (*yn edrych drwy'r ffenestr*). O dyma fe'n dod. (*Jenkin yn myned i fyny i'r llofft. Y gweinidog yn dod i fewn, a'i got fawr lwyd am dano*).

MORFYDD : "Nhad annwyl, mae'n dda genny'ch gweld. Beth ddigwyddodd ? Colli'r trên ?"

GWEINIDOG : "Ie, merch i. Llefen ! Beth sy'n bod ?"

MORFYDD : "Nhad annwyl, mae Jenkin wedi bod yn dweyd pethau cryf iawn ; rhegi, nhad" (*yn wylo*).

GWEINIDOG : Lle mae e ?"

MORFYDD : "I fyny ar y lloft yn paco'r bag" (*siarad yn araf ac yn wylofus*).

GWEINIDOG (*yn arwyddo syndod a gofid*).

MORFYDD : "Dyma fe'n dod."

Jenkin yn dod i fewn, yn sefyll yn sydyn, y tad a'r mab yn sefyll wyneb yn wyneb am eiliad neu ddwy).

GWEINIDOG (*bron methu siarad gan dristwch*) : "Wel, Jenkin bach, wyt ti'n penderfynu'n gadael ni ?"

JENKIN (*yn dyner ond yn benderfynol*) : "Ydw, nhad, allai ddim aros rhagor i fod yn dreth arnoch chi. (*Y ddau yn edrych i wyneb eu gilydd am funud, yna yn edrych tua'r llawr. Mae Morfydd a'i phen ar y bwrdd yn wylo. Jenkin yn troi yn sydyn tua'r drws, yna yn ei agor ac yn troi i edrych ar ei dad a'i chwaer am eiliad, yna gydag ochenaid yn myned allan yn syth. Y gweinidog, yn cael ei drechu gan ofid, yn eistedd yn drwm i lawr ger y bwrdd, ac yn ochain. Yna, ymhen munud neu ddwy yn codi ar ei draed, yn cerdded yn araf i gyfeiriad y drws; yn ei agor, ac yn edrych allan i'r gwagder am funud, ac yna yn dweyd yn araf iawn*), "O fy mab, Absalom ; fy mab, fy mab Absalom."

LLEN.

ACT II.

Cegin Mrs. John (*tua* 30 *oed*), *un o aelodau parchus Moriah, a gwraig o Sir Gaer, Ty glan iawn, ac yn mwy newydd yr olwg na thy'r gweinidog. Mrs. Isaac* (*oedran*, 35), *aelod arall, ond o dype gwahanol ; mwy o gorff nag o feddwl, yn llai glan a syber na Mrs. John, ac yn fwy rhydd ei thafod. Sieryd yn nhafodiaith Cwm Rhondda. Y ddwy yn yfed Te.*

(D.S.—Seinir á yn y geiriau nàg, gàl, &c. fel yn y Seisnig *care*.

Mrs. John : " Wel, Mrs. Isaac, o chi ddim yn y Cwrdd Gwragedd neithiwr ? "

Mrs. Isaac : " Nâg o'n, wir, ferch, o'n ni'n meddwl dod, ond ŷ'ch chi'n gwpod y gofid wy'n gàl gan y crwt mell-tigedig na, Sammy. Fe ddath sha thre nithwr yn llawn slwdge a baw, a'i ddillad yn rhacs gibbaders. Odd a wedi bod yn casglu mwa'r duon, a fe ddàth nol â llond dishgil dicon i neud tishan fach gwerth cinog a dima falla, a spoilio 'i suit newydd yn y fargen.

'Sam, Sam, the dirty man,
Wash his face in the frying pan.'

Dyna beth mà'r plant i gyd yn i' alw fa, a mà nhw'n eitha reit, ed."

Mrs. John : " Wel, yn wir, Mrs. Isaac, ma rhai bech-gyn yn neud lot o waith i'w mamau. Mae'r ddwy efylles wedi gwella o'r *scarlet fever* yn awr, ond i nhw ?"

Mrs. Isaac : " O, oti'n—o'r diwedd. Gwyddoch chi beth, Mrs. John, mà nhw'n od. Fe ddethon i'r byd 'run pryd, torri 'i dannadd 'r un pryd, càl y *scarlet fever* a'r *flu* a'r *mumps* 'r un pryd ; os caiff un y pes, mà'r un arall yn siwr o follow suit. Os cwmpiff un yn y dŵr, mà'r un arall yn siwr o gwmpo miwn wrth drio helpu'i chwi'r. Ma nhw'n mofyn yr un sort o fwyd, 'r un sort o ddillad—"

Mrs. John (*yn gwenu*) : " *Jealousy*, Mrs. Isaac."

Mrs. Isaac : " Ia, spo—. Gobitho, os tyfa nhw lan, nà fydda' nhw ddim yn mofyn yr un gwr ; nid sport i gyd fydd hynny (*yn gwenu*)."

Mrs. John (*yn chwerthin*) : " Wel, yn wir, Mrs. Isaac, allai ddim peidio chwerthin tipyn er gwaetha pob peth, ond i chi'n cael trafferth rhyfedd gyda'r plant na."

Mrs. Isaac : " Ytw, Mrs. John fach, ond dyna fe, rhaid i'r petha hyn fod, spo."

Mrs. John : " Rhaid, mae'n debyg. ' Dyn a aned o wraig sydd fyr o ddyddiau, a llawn o helbul."

Mrs. Isaac : " Ia, a diolch i'r mawradd mai byr o ddyddia mae'r Gair yn weyd, a nid llawar o ddyddia. Ffansiwch mod i'n byw i oetran Methusalem ! Mawradd annwl ! *Scarlet Fever*, Pes, *Sciatica, Flu, Rheumatic*, a'r holl betha càs erill na, am dros naw mil o flynyddodd !"

Mrs. John (*yn chwerthin*) : " Na, na, Mrs. Isaac, nid cynddrwg a hynny, hefyd. Rhywbeth dros naw cant bu Methuselah byw, a dyw'r Rheumatic a'r Pas a'r petha câs ereill na ddim yn para o hyd."

Mrs. Isaac : " Eitha gwir, Mrs. John ; mà'r cymyla yn cliro tipyn nawr ac yn y man, a diolch am amball i briotas, a thrip i Borthcawl a'r Barry. Ma'r pethe hyn yn help i ni fyw."

Mrs. John : " Odyn, odyn, Mrs. Isaac. (*Cnòc wrth y drws*). Dewch i mewn. O, Mrs. James, chi sy na. Just mewn pryd i gal cwpaned o dê—*fresh, my dear.*

(*Mrs. James, gwraig barchus arall tua'r un oedran a Mrs. John, yn dod i fewn. Hithau, fel Mrs. Isaac, yn siarad iaith Cwm Rhondda*).

Mrs. James : " Hullo, Mrs. Isaacs, chi sy na ; mà'n ddà genni'ch gweld yn gallu dod màs am dro."

Mrs. Isaacs : " Oti wir, ferch, mae'n nice fod menywod fel Mrs. John i gàl yn y byd ma. Mae wedi gofyn i fi lawar gwaith i ddod i gàl dishgled o dê, a dyma fi o'r diwadd."

Mrs. James : " Mae'n *change* i chi, ar ol yr holl draffarth na ŷchi wedi gàl gita'r plant na ; y ddwy efylles na, 'rwyn feddwl. Mà nhw'n gwella nawr yn nêt, ond ŷ nhw."

Mrs. Isaacs : Otin, o'r diwadd ; nawr buo'n ni'n dwy yn wilia am dàni nhw, ac am drafferthion 'r hen fyd ma."

Mrs. John : " Mrs. James, be'ch chi'n sefyll ar ych trâd, thyfwch chi ddim modfedd rhagor, mwy na finne. Dewch i gal cwpaned o dê gyda Mrs. Isaac a finne.

Mrs. James (*yn eistedd wrth ochr Mrs. Isaac*) : " Wel, yn wir, wy i wedi càl tê ; dod i wylia gair o' ni o bythti r cwrdd na nos Iau nesa, i gàl Tê a Choncert i helpu cwnni arian Mr. Williams y Gweinidog, ond fe allai i gymryd dishgled o dê—ma disghlad o dê fel £5 *note*, wastod yn *welcome*, ond (*yn edrych ar draws y bwrdd*) beth am shwgir, amsar rhyfal ma ? (*yn cydio yn y basin llawn, yn agor ei llygaid, yna yn gwenu i lygaid Mrs. Isaac*), Trueni na fysa Twm chi yn ddicon mawr i fynd yn brentis mewn shop grocer, fe gelsa weld gwyrthiau'n dicwdd—wetyn."

Mrs. Isaac : " Gwyrthia ! Beth chi'n feddwl ? "

Mrs. James (*yn gwenu*) : " Wel, cerwch i'r shop, a gofynwch am bown ne ddou o shwgir a petwar pown ar ddeg o datws, a ma'r Grocer yn dishgwl arno chi'n gwmws fel ta chi'n barod i fynd i Benbont ne Abergavenny, a fe gewch ddicon o shwgir i ddoti'n ych llycad, a dicon o datws i neud cino i wibetyn, ond (*yn penelino Mrs. Isaac, ac yn chwerthin yn dawel*) os bisa chi'n gallu mynd no amsar cino, yn enwetig amsar cino dy' Sul, mà'r nefodd wedi gofalu am y Grocer (*yn gwenu*) ma fà'n ddyn mor dda chi'n gweld ; fe sy'n catw ni'n fyw, a mà na datws a dicon o shwgir glân i neud pwdins a tishan beautiful."

Mrs. Isaac (*yn gwenu*) : " Dod lawr o'r nefoedd, efalla, Mrs. James, fel y manna na ! "

Mrs. James : " Dyna fe i'r dim, Mrs. Isaac."

Mrs. John (*yn gwenu ar Mrs. James, ac yn gosod ei bys ar ei gwefusau*).

Mrs. James : " *Oh, honour bright, Mrs. John, no tales out of school, my gel ;* dipyn bach o sport, dyna'i gyd ; a yn wir, diolch am ddishgled o dê fel hyn heb yr hen shwgir brown na, nà nit brown, *du* (*yn gwneud gwyneb sur, ac yn cydio mewn teisen Welsh Cake*), a thishan wedi 'i gneyd a rhwpath gwell na'r hen dreel na."

Mrs. Isaac : " Am bwy gwrdd o chi'n wilia—nos Iau nesa, Mrs. James ? "

Mrs. James : " Oh, ia'n wir ; on i just wedi anghofio'n necas i gyd—wedi 'i foddi yn y tê melys ma (*yn gwenu*). Wel, ma cwrdd nos Iau, ar ol y Gyfeillach, i wilia bothdi càl Tê a Choncert i gàl mwy o arian i roi i Mr. Williams y Gweinitog. 'Dyw a ddim wedi càl cwnad er pan ddechriws y rhyfal ofnadw ma."

Mrs. John : " Wel, yn wir, mae'n hen bryd gneud rhyw beth. Mae'r Gweinidog yn treulio scidie a dillad, ac yn gorfod talu rhagor am ei fwyd fel pawb arall, er y gallech chi gredu wrth glywed rhai dynion—a rhai yn ennill cyflog fawr iawn—"

Mrs. James : " Oh, nhw yw'r gwitha'n amal."

Mrs. John : " Rhai o'r dynion hyn sy'n bwyta—"

Mrs. James : " Mrs. John, i chi'n fwy *polite* na fi, ' stwffo ' fyswn i'n weyd, wàth w i wedi 'i gweld nhw a'm lliced 'm hunan."

Mrs. John : " Yn bwyta ac yn yfed a gwisgo—llawer gwell wedi'r rhyfel ddechre na eriod o'r blaen—yn siarad fel pe bae'r Gweinidog yn gallu troi'r chwech yn swllt, a hanner sofren yn sofren."

Mrs. James (*yn gwenu*) : " Na, dim ond grocers sy'n gallu gneyd gwyrthia."

Mrs. John : " A dynion sy'n berchen llonge ! "

Mrs. James : " O ma rhai o nhw just mor glevar â Moses i neud gwyrthia."

Mrs. John : " Ie, ond nid drwy yr un ysbryd, Mrs. James."

Mrs. James (*yn chwerthin*) : " Da iawn, wir, Mrs. John, ŷ chi'n diall napod."

Mrs. John : " Wel, 'nawr, dewch, beth am y cwrdd nos Iau ? "

Mrs. James : " Wel, fel y dwetas i, ma'r coliars a'r clerks, meiswnied,—pawb wedi càl cwnad ond y pregethwr, a ma'n bryd neud rhwpath i helpu Mr. Williams."

Mrs. John : " Odi'n wir, Mrs. James. Meddylwch, nawr, dim ond dwy bunt yr wythnos mae yn gael, a ma Henry ni a Robert chi, Mrs. James, yn ennill o bedwar i bum' punt yr wythnos. Beth ŷ'ch chi'n feddwl, Mrs. Isaac ? "

Mrs. Isaac : " Wel, yn wir, Mrs. John, dwy i ddim yn gweld fod isha llawer o arian arno fa, dim ond dou ŷ'n nhw nawr, ar ol i Jenkin—y ffwl bach na—i rytag off."

Mrs. James : " Ond ŷ'n i wedi cwnni arian Mrs. Roberts sy'n glanhau'r capal, achos bod brwshis a sebon, a phetha erill wedi cwnni yn 'i prish, a ma llifre wedi cwnni fel popath arall."

Mrs. Isaac : " Llifra ! Pwy isha llifra newydd sy byth a hefyd ? Mà dicon o lifra gita fa, gwnaiff yr hen lifra'r tro. Dishglwch ma, isha diwiciad sy arno ni. (*Mrs. John a Mrs. James yn gwenu*).

Mrs. Isaac : " Be chi'n werthyn, Mrs. John."

Mrs. John : " Oh, dim byd, Mrs. Isaac, cerwch ym mlaen."

Mrs. Isaac : " A beth sy gyta'r hen lifra i neud â diwiciad ? Nid cal 'i dalu am y tools ma John ni, ond am y drams m' f'an lanw. *Payment by results* ma John yn 'i alw fa. A fyswn i'n folon rhoi tair cinog y mish yn rhacor at y Weinidocath am bob aelod newydd."

(*Cnoc arall wrth y drws*).

Mrs. John : " Dewch i fewn." (*Mrs. Francis yn agor y drws*).

(*Benyw ychydig yn eithriadol ydyw Mrs. Francis. Canol oed, ac wedi gwisgo yn ddestlus ; un o'r gwragedd sydd yn addurn i'r Eglwys*).

Mrs. Francis : " Galw am funud wrth fynd heibio wy i, Mrs. John."

Mrs. John (*yn codi ar ei thraed, ac yn croesi at Mrs. Francis*) : " Dewch i fewn, Mrs. Francis, dewch i fewn."

Mrs. Francis : " Prynawn da i chi gyd. Na, eistedda i ddim, diolch, Mrs. John ; ar y ffordd wy i i weld Mari Christopher. Mae'r hen wraig, fel y gwyddoch, yn afiach iawn ers tair wythnos nawr, ac yn teimlo'n unig iawn,

hefyd, mae'r rhyfel wedi rhoi ergyd caled iawn iddi hi, sy'n byw ar y plwy'. Mae eisieu rhagor o bobpeth ar bawb yn y dyddiau ofnadwy hyn."

MRS. JOHN : " Wel, Mrs. Francis, dyna beth o ni'n siarad am dano pan oech chi'n cnoco wrth y drws. Siarad o'n ni am y cwrdd nos Iau nesa i godi cyflog Mr. Williams. Ma Mrs. James a finne o'r un feddwl nad yw Mr. Williams yn cael digon, ond mae Mrs. Isaac yn credu'n wahanol. Ond eisteddwch i lawr am funud, Mrs. Francis, eisteddwch i lawr."

(*Mrs. Francis yn eistedd i lawr*).

MRS. ISAAC : " Fel hyn, Mrs. Francis, càl 'i dalu wrth y dynnell mà John ni, dim llanw drams, dim arian. *Payment by results*, mà John yn 'i alw fa."

MRS. FRANCIS : " O, yn wir, *payment by results*. Hm ! (*yn aros eiliad, yn edrych yn fyfyrgar, ac yn taro'r bwrdd a'i bysedd*), na dw i ddim yn cydfynd a Mrs. Isaac."

MRS. ISAAC : " Wel, pam, Mrs. Francis, oti chi'n cretu y dyla gweinitog gàl i dalu yn ots na choliar ? Dyw coliar ddim yn càl i dalu am wilia am lanw drams, ond *am lanw* drams. Dw i ddim yn cretu y dyla gweinitog gàl lot fawr o arian, os nag yw yn gneud lot o waith—llanw'r capal, càl aelota newydd bob Sul—*payment by results*."

MRS. FRANCIS : " *Payment by results*. Na, Mrs. Isaac, dw i ddim yn credu yn hollol yn y dull yna o dalu gweinidogion. Elent yn rhy gyfoethog " (*yn edrych i lygaid Mrs. Isaac*).

Mrs. ISAAC : " Ha ! Ha ! Ha ! (*Mrs. John a Mrs. James yn gwenu ychydig*). Wel, yn wir, Mrs. Francis, do'n i ddim yn cretu y galla chi graco cystal jokes."

MRS. FRANCIS : " Mrs. Isaac, fum i 'rioed yn berson *humorous* iawn, er, cofiwch, mod i'n hoff o chwerthiniad iachus a joke dda yn 'i lle—ond fum i 'rioed yn fwy difrifol. *Payment by results* ! Dywediad un arall yw hwn, yr elai gweinidogion yn rhy gyfoethog pe baent yn cael eu talu fel y dwedsoch chi, *by results*. Ond rwy i 'or un farn yn llwyr. Mrs. Isaac, rwy'n siwr nad ŷch chi ddim wedi anghofio i John, eich gwr, fod yn wael iawn am

fisoedd, ar ei wely angeu, fel y credid gan bawb bron. Bu Mr. Williams yn ei wylio noson ar ol noson, yn gwylio a gweddio, a darllen y Beibl hyd 3 o'r gloch lawer bore. A chlywais gymydog yn dweyd iddo ei weld un bore yn dyfod gartref am 5 o'r gloch mewn ystorm o eira. A chofiwch, nid y brethyn gore sydd yn nillad Mr. Williams, a bu yn dioddef am wythnosau lawer mewn canlyniad i hyn. A chlywais chwi eich hunain yn dweyd nad yr un dyn oedd John, ar ol gweddiau Mr. Williams. Mae yn wr mwy caredig, ac yn dad lawer mwy tyner ; ydyw, ac y mae yn Gristion gwirioneddol. Pa faint am yna, Mrs. Isaac? (*aros am eiliad*). Roedd Dafydd, Ty Gwyn, yn ddyn arswydus un adeg ; mae heddyw yn Faer mewn dinas enwog yn Lloegr, yn gynorthwy pob mudiad daionus, yn graig lloches i'r gweddwon a'r amddifaid, ac yn glod i'w genedl. Mr. Williams achubodd ef. Dweddodd Dafydd hynny ei hunan lawer gwaith. Pa faint am yna ? Dwn i ddim beth fyddai wedi digwydd i Mrs. Jenkins, onibae am help y gweinidog. Collodd tri o'i phlant bach o'r *scarlet fever*, bron yn yr un wythnos ; bu bron mynd yn wallgof. Mrs. Isaac, gofynwch i Mrs. Jenkins beth mae'n feddwl am Mr. Williams ; gofynwch iddi hi roi pris ar ei lafur yn y plwyf yma. ' Angel Duw,' ' Cysgod rhag y gwres, a lloches rhag y dymhestl ' (*yn aros am eiliad*)—dyna beth mae Mrs. Jenkins yn feddwl am Mr. Williams. Dyw Mr. Williams ddim yn bregethwr Cyrdde Fawr ; dyw e ddim yn gallu ysgrifennu'n ddigon galluog i gael ei enw yn y cylchgronnau, ond mae yn un o weision ffyddlonaf a duwiolaf yn y wlad. Ellwch chi brisio dynion fel hyn mewn aur ac arian, Mrs. Isaac ? Rwy'n hoff o farddoniaeth, gwrandewch ar y tamaid byw, tarawiadol hyn :—

' Gymru annwyl, paid ymffrostio,
Nid i ti mae'r clod i gyd
Na bai'r proffwyd wedi 'th ado
Am esmwythach, brafach fyd.

Llawn fydd byrddau'r wledd lle 'r elo
Braster meddwl drostynt red—
Bwrdd ei gartre, sut mae yno ?
Gymru, sut mae yno, dwed ?

Gwisg bob meddwl coeth a syniad,
Oll mewn sidan main o'r bron,
Ond y wisg roi di i'th gennad,
Digon llwyd yn aml yw hon.

Myn dy Sasiwn a'th Gymanfa,
Myn dy nefoedd, Gymru wen,
Ond bydd dirion, nac anghofia
Broffwyd, pan fo'r wyl ar ben.

(*Pawb yn fud*).

(*Cnoc eto. Mrs. Isaac yn codi ac yn paratoi i fynd*).

Mrs. John : " Dewch i fewn." (*Y gweinidog yn agor y drws, ac yn aros am eiliad*).

Y Gweinidog : " Peidiwch mynd, Mrs. Isaac. Yn wir nid pob gweinidog sydd yn gallu lladd cymaint o adar—nid adar gwylltion, rwy'n feddwl (*chwerthin*), na'i lladd nhw, chwaith, o ran hynny, gyda'r un garreg ; ond yn wir, rwy'n lwcus. Mae'n dda genny'ch gweld gyda'ch gilydd, mor ddedwydd."

Mrs. Isaac : " Wy i wedi bod yma'n rhy hir " (*yn chwilio am ei hat*).

Mr. Williams : " Eisteddwch i lawr, Mrs. Isaac."

Mrs. Isaac : " Nà, mae'n rhaid i mi fynd 'nawr, diolch yn fawr am y tê, Mrs. John."

Mrs. John : " Dewch eto, ryw ddiwrnod arall, Mrs. Isaac."

Mrs. Isaac : " Alright. Dwetydd dà i gyd." (*Yn myned allan*).

Mrs. John : " Eisteddwch, Mr. Williams, am funud."

Mr. Williams : " Na, yn wir, os gwelwch yn dda. Os eistedda i i lawr a dechreu siarad—y gwragedd sy'n cael y bai eu bod yn siarad gormod; ond pe baech yn y trên bore dydd Llun diweddaf gyda rhai o'r gweinidogion a'r Students, yn dychwelyd o'u teithiau—wel, gallech dybied fod y byd a'i wraig yn siarad 'r un pryd. A rwy'n ofni mod i wedi cael twtch o'r fever. Ar y ffordd i weld Mrs. Christopher wy i."

Mrs. Francis : " Rown ninnau ar y ffordd yno, hefyd, ond fe alwa i yno ryw ddiwrnod arall, nawr."

Mr. Williams : " Na, na, gadewch iddi gael cyrdde mawr am unwaith. Awn gyda'n gilydd. Pawb yn iach yma, Mrs. John ? "

Mrs. John : " Ydyn, diolch, Mr. Williams."

Mr. Williams : " Gyda chithe, Mrs. James ? "

Mrs. James : " Splendid, thankyw, Mr. Williams."

Mr. Williams : " O, da iawn." (*Yn siglo dwylaw a'u gilydd. Mr. Williams a Mrs. Francis yn myned allan*).

Mr. Willams a Mrs. Francis : " Prynawn da i chi'ch dwy."

Mrs. James a Mrs. John : " Prynawn da."

Mrs. John : " Oh, Mr. Williams, hanner mynud, os gwelwch yn dda." (*Yna, yn dawel ac yn dyner*). " A glywsoch chi oddiwrth Jenkin ? "

Mr. Williams : " Wel, do ; cefais lythyr bore ddoe. Mae wedi cael lle yn offis Broker, Cymro mae'n debyg. Gobeithio y ceidw ei ddillad yn wynion, ond rown i a'i fam wedi gobeithio y byddai yn myned i'r weinidogaeth. Wel, mae'r lle'n wag iawn hebddo."

Mrs. John : " Ydy, Mr. Williams, ydy. Prynawn da."

Mr. Williams : " Prynawn da."

LLEN.

ACT III.

Swyddfa Mr. Powell, Broker yn Birmingham. Mr. Powell yn eistedd wrth Roll-Top Desc, ar ei gadair ar screws, ar yr ochr ddehau ; a'r Chief Clerk, Mr. Johnson, Sais uniaith, wrth ei ddesc ar y llaw chwith. Y Chief Clerk yn ysgrifennu, a Mr. Powell yn agor ei lythyrau. Mae Mr. Powell tua 40 mlwydd oed, glan yr olwg, yn llwyddiannus iawn ac yn barchus yn y ddinas. Y Chief Clerk tua 26 oed. Mae draught Offis Screen yn rhyw hanner cuddio Mr. Powell oddiwrth y Chief Clerk.

MR. POWELL (*yn edrych yn hir ar un envelope*) : " Hullo, beth yw hwn ? Llythyr o Llwynrhedyn ? (*yn galw'r Chief Clerk*). Johnson ! "

JOHNSON : " *Yes, sir.*" (*Yn myned at Mr. Powell*).

MR. POWELL : " Another coincidence."

JOHNSON : " Yes ? "

MR. POWELL : " I was telling you yesterday about Ellen."

JOHNSON : " Yes. I think you told me she hails from Lwyn—"

MR. POWELL (*yn chwerthin*) : " Give it up, Johnson. Yes, Llwynrhedyn, my old home."

JOHNSON : " She came here about five years ago, I think, you said."

MR. POWELL : " Yes, five years, in 1910. She was an orphan."

JOHNSON : " You have a soft spot in your heart still, Mr. Powell, in spite of many years on the Exchange."

MR. POWELL : " Yes, especially for orphans. My Ceinwen has lost a mother."

JOHNSON : " How old is Ellen now ? "

MR. POWELL : " She is—let me see—12."

JOHNSON : " And Ceinwen ? "

MR. POWELL : " She is 10."

JOHNSON : " Are they happy together ? "

MR. POWELL : " Almost like two sisters, and so happy, Johnson, that I think I shall never marry again."

JOHNSON : " Why ? "

MR. POWELL : " Well, who knows how the new Mrs. Powell would take to these children ?"

JOHNSON : " Yes, one never knows what might happen."

MR. POWELL : " I have an excellent Housekeeper in Mrs. Humphreys. (*Yn edrych ar y llythyr yn ei law*). Johnson, are you superstitious ? "

JOHNSON : " Not in the least."

MR. POWELL : " Hm. No, you cold English people are rather lacking in imagination."

JOHNSON : " Why did you ask that ? "

MR. POWELL : " Well, five years ago I received a letter from Llwynrhedyn asking me to befriend an orphan"

JOHNSON : " Yes."

MR. POWELL : " I did so, and, as I told you, I think her coming has in some measure prevented my thinking of marrying again."

JOHNSON : " Is that so ? "

MR. POWELL : " Yes. Well, something tells me that this letter again will have a great effect upon my life."

JOHNSON : " Mr. Powell, surely a solid business man like you does not put any faith in such things."

MR. POWELL (*yn gwenu*) : " A mere passing fancy, I suppose."

JOHNSON : " Well, open it, Mr. Powell, and see for yourself. Perhaps I had better go ? "

MR. POWELL : " Oh, no, no, stay here."

(*Yna yn agor y llythyr ac yn ei ddarllen. Daw gwg ar ei wyneb. Mae y Chief Clerk yn gweld hyn, ac yna a yn ol i eistedd wrth ei ddesc. Try i edrych yn awr ac yn y man ar Mr. Powell*).

MR. POWELL (*Tafl y llythyr ar y desc, a dywed*) : " Beth ! Gofyn i mi roddi gwaith i fab un a'm gadawodd i briodi student tlawd." (*Yn darllen ymlaen*). " Dioddef caledi. Hm" (*Yn darllen*). " Meddwl am y dyddiau hapus gynt yn ei chwmni." (*Tawelwch*). Peidio talu llygad am lygad a dant am ddant. Wedi marw, a marw yn dlawd ! Eich hen gyfaill, JONAH GRIFFITHS." O.Y.—" Nid yw y mab yn gwybod dim am y gorffennol. Mae yn dod yma i Birmingham heddyw."

(*Tra yn siarad, dylai Mr. Powell droi ei wyneb yn awr ac eilwaith at y gynnalleidfa. Wedi darllen y llythyr gesyd ef yn ei logell. Yna gesyd ei ddau benelin ar y ddesc, ei ddwylaw dan ei en, yna edrycha i'r gwagder. Ei edrychiad ar y cyntaf yn galed a phenderfynol, ond ymhen ychydig, arwydda ei wyneb fod meddwl am y gorffennol yn ei dyneru, ac y ca Jenkin wrandawiad o leiaf. Yna, curiad wrth y drws.*

CHIEF CLERK : " Come in." (*Jenkin yn dod i fewn*).

JENKIN : " Is Mr. Powell in, please ? "

CHIEF CLERK : " Yes."

JENKIN : " May I see him just a few minutes ? "

CHIEF CLERK : " What may your business be ? Have you an appointment ? "

JENKIN : " A friend may have written him. It is a private matter."

CHIEF CLERK : " I'm very sorry, but he is very busy this morning ; he is in a great hurry to catch the next train to Manchester."

JENKIN : " Please tell him there's a young Welshman here from Llwynrhedyn. (*Chief Clerk yn arwyddo syndod*). I think he will see me for a few minutes. (*Mr. Powell yn clywed y gair Llwynrhedyn, ac yna yn aros i wrando*).

CHIEF CLERK : " Your card. then. I will try him, since you are so anxious to see him."

JENKIN : " Sorry I have no card ; but I feel sure he will spare a few minutes."

CHIEF CLERK (*yn codi ei ysgwyddau*) : " Ah, well, since you are so persistent, I will ask him." (*Y Chief Clerk yn myned at Mr. Powell*). " There's a young Welshman here from Llwyn——"

MR. POWELL : " Llwynrhedyn ?"

CHIEF CLERK : " Yes. I'm sorry, but I cannot get rid of him. He is so very persistent. Will you see him ?"

MR. POWELL : " Yes. I heard a few words of your conversation. I'm glad to think the Welshman is getting a little more persistent and pushful than he used to be. I will see him."

CHIEF CLERK (*yn croesi at Jenkin*) : " Mr. Powell will see you for a second." (*Jenkin yn croesi at Mr. Powell*).

MR. POWELL : " Good morning, young man."

JENKIN : " Good morning, Sir."

MR. POWELL : " Cymro, mae'n debyg."

JENKIN : " Ie siwr, Syr, o Llwynrhedyn ; a deallaf o'r un sir, os nad o'r un plwyf â chwi. Efallai fod Mr. John Griffiths wedi ysgrifenu atoch ? "

MR. POWELL : " Do, siwr; eich enw yw Jenkin Williams, onte ? "

JENKIN : " Ie, Syr."

MR. POWELL : " Wel, be chi'n mofyn ? Iechyd ? "

JENKIN : " Ie, syr ; iechyd i'm henaid, i'm hysbryd; chwilio am gyfle i weithio fy ffordd i fyny i gyfoeth ac anni-byniaeth ac awdurdod, os yn bosibl. (*Yn aros*). Hynny yw, os y gwnewch chwi, Syr, garedigrwydd â mi heddyw."

MR. POWELL : " Gwneud arian ; dringo i awdurdod ;

annibyniaeth ! H'm ! Uchelgeisiol, rwyn gweld. Does dim arian gan eich tad, ynte ? "

JENKIN : " Gweinidog, Syr, yw nhad."

MR. POWELL : " H'm, na, does dim llawer o wragedd gweinidogion yn talu *death duties*, mae'n debyg."

JENKIN : " Mae gweinidog cyfoethog, Syr, mor eithriadol ag alarch du, ac ambell wraig gweinidog yn (*yn tagu, dagrau yn ei lygaid*). Maddeuwch i mi, Syr, cofio am fy mam, sydd wedi marw, a'm llethodd am funud."

(*Mr. Powell yn troi ei gefn, ac yn gwneud ymdrech i beidio dangos dim i Jenkin*).

Maddeuwch i mi, Syr, ond pe baech chi wedi digwydd gweld ac adnabod mam, ac yn gwybod helynt y Capel a'n cartref, gwn y byddech yn maddeu i mi."

MR. POWELL (*yn troi i edrych ar Jenkin*) : " Beth ellwch chwi wneud ? "

JENKIN : " Darllen a siarad ac ysgrifennu Cymraeg a Saesneg ; rwyf yn deall ychydig French, yn gwybod tipyn am Algebra, Trigonometry, a Mathematics."

MR. POWELL : " Aberth tad a mam, mae'n debyg ? "

JENKIN (*yn wresog*) : " Ie, Syr ; aberth mawr ar gyflog fechan iawn."

MR. POWELL : " Ddyn ieuanc, rwy'n edmygu eich ysbryd ; clywais ychydig o'r siarad wrth y drws; mae yn dda gennyf weld Cymro ieuanc penderfynol, ond a ydych wedi ystyried y peryglon a'r gofidiau sydd yng nglyn â chyfoeth ? "

JENKIN (*yn benderfynol*) : " Er nad wyf ond 18 mlwydd oed, rwyf wedi gweld digon i'm suro am byth yn erbyn tlodi. Mae dyn da, duwiol, ond tlawd, yn aml iawn yn cael ei sarhau a'i ddirmygu gan ddynion cul, cybyddlyd, anwybodus, tra mae cyfoeth yn ennill parch ac anrhydedd. Mae llawer tlawd da yn gorfod aros gartref o flwyddyn i flwyddyn i chwysu ei esgyrn pan nad yw yn hanner iach, tra mae'r dyn ag arian ganddo yn gallu cael y feddyginiaeth oreu, y bwyd goreu, tŷ eang, ac iachus ac yn gallu mynd i Switzerland am dri mis yn y flwyddyn a——"

Mr. Powell (*yn codi fys yw atal i siarad rhagor*) : " Wel, Mr. Williams, mae'n amlwg eich bod wedi meddwl llawer am y peth hyn ?"

Jenkin : " Mae y gorffennol, Mr. Powell, wedi gwneud i mi *benderfynu* (*yn gadarn*) na cha yr un rhwystr *a allaf symud*, i sefyll ar fy ffordd."

Mr. Powell (*yn galw'r Chief Clerk*) : " Johnson."

Chief Clerk (*yn codi, ac yn myned at Mr. Powell*): " Yes Sir."

Mr. Powell : " This young man's name is Jenkin Williams ; give him a month's trial."

Chief Clerk : " Yes Sir." (*Yn myned ac yn eistedd wrth ei ddesc a'i gefn at Mr. Powell a Jenkin*).

Mr. Powell (*wrth Jenkin*) : " Be here to-morrow morning by nine o'clock."

Jenkin : " Yes Sir. (*Yn troi i fynd*). Good morning, Sir."

Mr. Powell : " Good morning. O, Mr. Williams, hanner mynud, oes gennych le i aros, *lodging* ? "

Jenkin : " Oes, diolch."

Mr. Powell : " Faint o arian sydd gennych ? Dim gormod, efallai. (*Yn rhoddi arian papur iddo.*) Er mwyn eich mam."

Jenkin : " Diolch, syr. Bore da."

Mr. Powell : " Bore da " (*yn dyner*).

Saf yn edrych i'r drws am eiliad ar ol i Jenkin fyned allan ; yna, a yn ol ac eistedda wrth y desc, ei law dan ei ben ; edrycha i'r gwacder. Yna cwyd yn araf. Y mae yn cau y desc, cydia yn ei het, etc., a dywed : " Johnson, I shall not go to Manchester, but I shan't be back this afternoon. Good morning."

Johnson : " Good morning, Sir."

ACT IV.

Offis Mr. Powell etc. 1921. *Chwe mlynnedd wedi myned heibio. Mr. Powell yn rhy hoff o'r ddiod. Mae ganddo un plentyn, Ceinwen, tua* 21 *oed, Ceinwen wedi ymbriodi a Jenkin ; eu dau yn byw yn " Cymrofa," gyda Mr. Powell. Y Chief Clerk wedi ymadael. Jenkin yw " llaw ddehau " Mr. Powell; mewn gwirionedd, mae Mr. Powell wedi ymollwng yn ormodol i yfed Whisky, ac y mae'r fusnes yn llaw Jenkin. Mae yn ddiogel yn llaw Jenkin, ond nid oes sicrwydd fod Jenkin yn ddiogel yn llaw y fusnes. Mewn gair, mae bron yn ysglyfaeth i gyfoeth ; "Gwneud arian " a dod i awdurdod yw ei fywyd. Yn bresennol, Mr. Powell a Jenkin. Amser, tua* 10 *y bore ; Mr. Powell yn eistedd ac yn darllen y " Financial News " wrth ddesc A. Jenkin yn brysur iawn wrth ddesc B (llaw chwith). Yna, ymhen ychydig, cwyd Mr. Powell ar ei draed, cydia yn ei het ac a allan.*

JENKIN : " Y ffwl. Wedi gwneud arian, yn eu taflu i ffwrdd ar y fath sothach."

(*Ymhen ychydig daw Ceinwen i fewn, wedi gwisgo yn hardd, ac yn llawn bywyd. Jenkin yn troi i edrych arni*).

CEINWEN (*wrth weld cadair ei thad yn wag, yn edrych yn bruddaidd, yna dywed*) : " Wrth eich hun, rwy'n gweld."

JENKIN : " Oh, ie, Ceinwen, dyna'r rheol ers amser, bellach."

CEINWEN (*ymhen ennyd*) : " Rwyf am dalu'r bill am y got newydd yma, a'r fur ; mae'n hen bryd ei dalu. Anghofiais ofyn y bore yma am y cheque. Gwnewch ef mas i mi yn awr."

JENKIN : " Am ba faint ? "

CEINWEN : " Hanner can punt."

JENKIN (*yn edrych yn sur, yna yn gwneud y cheque allan ac yn ei daflu ar y desc*) : " Un arall eto am wagedd."

CEINWEN : " Jenkin, peidiwch taflu hwnna ata i.

Onibae am nhad ni fyddech yn werth dim, a buoch unwaith yn fwy hael ac yn mwynhau bywyd tipyn yn well."

JENKIN : " Paham mae rhaid gwastraffu fel hyn ? "

CEINWEN : " Rhaid peidio cybyddio hefyd. Beth yw arian dda ond i'w gwario i fwynhau bywyd ? Clywais chwi yn dwrdio digon ar y cybyddion unwaith ; gobeithio nad y chi'n mynd i ganlyn ol eu traed sanctaidd." (*Gwawd*).

JENKIN : " Gellwch ddiolch fy mod yn ychydig o gybydd, neu beth ddeuai o'r fusnes ? "

CEINWEN : " Lle mae nhad ? Yn y Clwb, mae'n debyg ! Pe bae mam yn fyw, efallai y byddai'n wahanol. Bore da." (*Yn codi, ac yn myned allan*).

JENKIN : " Bore da."

(*Ymhen ennyd*). " Oh, ie, heddy mae Nicholas yn galw ; mae ganddo rywbeth gwerth son am dano, medde fe. (*Yn edrych ar ei oriawr*). Mae'n hen bryd iddo i ddod." (*Cnoc wrth y drws*).

JENKIN : " Come in." [(*Nicholas yn dod i fewn ; Dyn " smart " ar yr Exchange yw Nicholas. Gwneyd arian mewn unrhyw fodd yw ei amcan mewn bywyd. Tua* 28 *mlwydd. Cadnoaidd yn ei ysgogiadau*).

NICHOLAS : " Wel, y machgen i, sut mae ? " (*Yn eistedd yn agos i Jenkin*).

JENKIN : " O ! Symol. What's the latest on Change? What are the markets like ? "

NICHOLAS : " Oils steady ; Gold Shares rising. Lle mae'r gaffer ? Yn y Clwb, eh ? Have a Cigar ? " (*Y ddau yn ysmygu am eiliad neu ddwy*).

JENKIN : " Wel, Nicholas, be sy' genti ? Rhywbeth gwerth meddwl am dano, gobeithio."

NICHOLAS : " Wy i wedi rhoi dou neu dri peth go dda yn dy ddwylaw di cyn heddy, ond wy i ? "

JENKIN : " Wyt, ond nid heb ychydig o elw i ti dy hunan." (*Yn gwenu i wyneb Nicholas*).

NICHOLAS : " Wrth gwrs, hynny. *Put money in thy purse,* machgen i, *that's my policy.* A wy i wedi dysgu tric bach neu ddou i ti, ond wy i ? "

JENKIN : " Wyt, chwareu teg i ti."

NICHOLAS : " A mae wedi talu'n dda i tithe. Gen i mae'r pen, ond gen ti mae'r arian."

JENKIN : " Wn i ddim am hynny. Powell sy'n cael y share fwyaf."

NICHOLAS : " Ia, ti sy'n gwneud y *donkey work* a Powell yn cael y porfa frâs."

JENKIN : " Buot ti ar ben yr Wyddfa 'riod ? "

NICHOLAS : " Naddo i, well gen i le twym."

JENKIN : " 'Roedd rhai o'r bechgyn yn yr ysgol 'slawer dydd wedi bod, ac anghofia i ddim mor genfigennus roeddwn i. Wy i am ddringo, Nicholas, am ddringo, ond mae tlodi wedi bod ar fy ffordd o hyd. Rown i'n credu pan y priodas i Ceinwen y byddai'n *plain sailing* i gyfoeth, ond dyma Powell ar y ffordd heddy—mae'n yfed ac yn gamblo canoedd o bunnau bob blwyddyn."

NICHOLAS : " Eitha gwir. Byddai'r llong ar y *rocks,* onibae am y *Chief Mate,* Jenkin Williams. Pryna long dy hun, fachgen, *and sail away to El Dorado.*"

JENKIN : " Nicholas, er mwyn pobpeth, paid a chwarae â'm teimladau ; paid codi gobeithion ffol yn fy nghalon."

NICHOLAS : " Jenkin, mae Shakespeare yn chap go dda, mae'n werth i ti wrando arno ; clyw :—

> '*There is a tide in the affairs of men*
> *Which, taken at the flood, leads on to fortune.*'

Dere, treia un o'r Cigars yma eto."

JENKIN : " Na, treia un o'r rhai hyn. (*Nicholas yn cymeryd Cigar, y ddau yn ysmygu mewn distawrwydd am eiliad. Jenkin yn trwm fyfyrio. Nicholas yn sylwi'n graff arno*).

NICHOLAS : " *There is a tide,* Jenkin. *Ebb tide* yw hi arno i ers tipyn. Myn cythraul i, carwn fod yn dy sgidie di."

JENKIN : " Beth alla i neud ? "

NICHOLAS : " Pethe mawr, os mynnu. Ond i ti fod yn wir gryf, digon hawdd i ti ddod yn gyfoethog. A gwyddot beth sydd yn canlyn cyfoeth mawr ? Parch ac anrhydedd mewn byd ac eglwys, wrth gwrs. ' My Lord,' ' My Lady', ' M.P.,' ac yn y blaen, heb son am awdurdod ar fywydau a buddiannau dynion ; pleser a mwyniant yn y byd yma."

JENKIN : " Nicholas, er mwyn Duw, paid a chwarae â'm gobeithion."

NICHOLAS : " 'Dwy i ddim yn chwarae â thi o gwbl. Jenkin, wyt ti wedi clywed am y Spaska Oil Co. ? "

JENKIN : " Nag wy i."

NICHOLAS : " Nag wyt, mi wn. A does braidd neb yn y ddinas yn gwybod am danynt."

JENKIN : " Russian ? "

NICHOLAS : " Ie. 'Nawr, edrych yma. Wrth gwrs, rhaid i ti dalu *tip* go dda am yr *inside information* yma."

JENKIN : " Pobpeth yn iawn, cer mlaen."

NICHOLAS : " Wel, dyma'r cynllun. Cynllun drwy ba un y gelli wneud £10,000 a rhagor.

JENKIN : " Wyt ti'n siwr ? "

NICHOLAS : " *A dead cert, my boy,* ond i ti wrando arna i. Nawr, ti elli brynu'r shares heddy am 50, a'u gwerthu yn hawdd i glients Powell am 80."

JENKIN : " Wel ! "

NICHOLAS : " Mae enw Powell yn ddigon da i sicrhau hyn."

JENKIN : " Ydi, mae pawb yn credu y gellir ymddiried yn ei air."

NICHOLAS : " A gelli di fanteisio ar hyn i wneud i Powell i dalu 'nol i ti am wneud y *donkey work*, a gadael iddo ef gael amser da."

JENKIN : " Ond Powell fydd yn cael yr elw i gyd eto."

NICHOLAS : " Nage, nage ; aros tipyn, paid a gwylltu. *Keep cool, my boy.* Ti sy'n trafod cheques Mr. Powell i gyd, onte ? Mae'r *Banking Business* yr holl ymdrafodaeth yn dy law di, ond yw e' ? "

JENKIN : " Odi."

NICHOLAS : " Dyna ddigon. Nawr, edrych yma. Fe brynnir y shares yma wrth y cannoedd, am fod enw Powell yn dda, a thi elli wneud miloedd o bunnau yn hawdd. Nawr machgen i, mae'r *tip* yma yn werth £200 o leiaf."

JENKIN : " Ond beth os â y shares i lawr yn fuan ? '

NICHOLAS : " Ie, dyna cwestiwn teg. (*Yn edrych oddeutu yn graff ; yna, yn dawel*). Wel, a dweyd y gwir, ma nhw yn siwr o fynd i lawr; mewn gair, efallai, *i zero, and there will be a hell of a row ;* bydd Powell yn y ffwrn dân, ond byddi di wedi gwneud dy bile. dy fortune, a gelli ddechreu busnes dy hun mewn tre arall heb gael rhagor o dy rhwystro gan Powell na neb arall. (*Jenkin yn edrych yn fyfyrgar tua'r llawr. Nicholas yn tynu papur o'i boced*). Dyma Circular wedi ei dynnu allan yn barod i ddanfon at y *Customers.* Dod enw Powell wrtho, a bydd pobpeth yn iawn." (*Jenkin yn ddistaw, yna, gyda ochenaid, yn dweyd*) :—

JENKIN : " 'Dyw Powell ddim wedi bod yn *bad sort* i mi, wedi'r cwbl."

NICHOLAS : " 'Dwyt ti ddim wedi bod yn *bad sort* i Powell, chwaith. Fe dy gymerodd di i'w helpu i wneud arian, a wyt ti wedi gwneud dy waith yn ardderchog ; ond dyma'r ffwl yn gwastraffu nhw nawr mor gynted ag y gall e'."

JENKIN (*yn edrych i lawr ar y desc, a'i law dan ei ben*) : " Dwy i ddim yn gweld y dylwn i wneud hyn."

NICHOLAS (*yn codi yn sydyn ar ei draed, ac yn dweyd yn wyllt*) : " Oh, *dam it all, man. Fiddlesticks.* Rhaid i ti ei wneyd, os wyt ti am ddod ymlaen. Gwna rhywbeth, nid

siarad, siarad yn dragwyddol, neu cer i lawr yn yr hen long gyda Powell. Wyt ti'n gwybod am Smithson & Jeffreys, y firm fwyaf yn Birmingham ? "

JENKIN : " Ydw."

NICHOLAS : " Wel, fe allwn i ddweyd stori bert am 'i dechreuad nhw, a llawer firm fawr arall. Bachgen, rhaid iti suddo dy deimladau yn y môr, caledi dy galon fel haiarn, os wyt am ddod yn gyfoethog. Pe bae Powell wedi gadael pethe yn fwy llwyr yn dy law di, a rhannu'r profits byddet heddyw yn werth miloedd."

JENKIN : " Byddwn."

NICHOLAS : " Jenkin, *there is a tide*, machgen i. Mae tynged wedi penderfynnu drosot. Rhaid iti edrych atat ti dy hun, os wyt am lwyddo. Fe gâs Elen fynd naill ochor er mwyn i ti briodi Ceinwen, yr etifeddes, ond do ? "

JENKIN : " Do."

NICHOLAS : "Wel, os wyt am fynd i fyny, rhaid i Powell syrthio i lawr. *Fate has said the word.* Pe bae yn marw yn ei ddiod, neu ddod gyda fi i bysgota un o'r diwrnode nesaf yma, a mynd dros ei ben i'r afon, dyna fyddai oreu, efallai. *But, as it is, take the bull by the horns, and win right out.*"

JENKIN : " *Yes, I will.* (*Yn arwyddo'r Circular*). *I will get these printed right away.*"

(*Y ddau yn codi*).

NICHOLAS : " Sut mae Ceinwen ? "

JENKIN : " Da iawn, diolch. Pryd wyt ti'n dod i weld y babi ? Wech mis, a tithe heb ei weld."

NICHOLAS : "O fe ddwa i un o'r diwrnode nesaf yma. (*Yn ddistaw*). Dyma'r D———l yn dod."

(*Powell yn dod i fewn, a'i gerddediad yn arwyddo ei fod mewn diod*).

MR. POWELL : " Hullo, M——machgen i. *How's Biz ?* (*Yn eistedd wrth ei ddesc*). Shwd mae'r iechyd ? "

NICHOLAS : " O, dim byd yn extra, Mr. Powell. Teimlo eisieu diwrnod yn y wlad, diwrnod o bysgota, dyna fysa'n fendigedig."

POWELL : " Bachgen, dyna'r *very thing ;* oni'n siarad am dano y bore yma yn y Clwb gyda Mr. Venables. (*Yn eistedd i lawr*). Bachgen, gallwn ni ddim cael diwrnod gyda'n gilydd ? Allwn ni wneud â diwrnod o bysgota, dwy ddim yn teimlo hanner dda 'm hunan. Eistedd i lawr, fachgen."

NICHOLAS : " Am eiliad, ynte. Carech chi ddod, Mr. Powell ? "

MR. POWELL : " Y fory nesa, machgen i, os gelli drefnu. *Oh, wait a minute, I hav'n't asked the Governor* (*yn gwenu ac yn cyfeirio at Jenkin*). Efe yw'r Boss nawr, wel di (*yn chwerthin*). *Shall I have a day off to-morrow, Governor? I have worked very hard of late* (*chwerthin*). *Jenkin yn fud*). Wel di, dyw e ddim yn foddlon ; *can't spare the old horse.* (*Yn siarad yn uchel*). Dwed, fachgen, gai i ddiwrnod off, yfory ? "

JENKIN (*yn meistroli ei hun, ac yn troi i siarad*) : " Gwyddoch, Nicholas, mai joke yw hyn ; os ydyw am fynd, wel——"

MR. POWELL : " Ca i fynd, te ? "

NICHOLAS (*yn codi*) : " Dyna fe, Mr. Powell ; mae Jenkin, y Boss (*yn gwenu*) yn foddlon. Byddwch yn y Station bore fory am 9-30."

MR. POWELL : " I ble awn ni, fachgen ? "

NICHOLAS : " Wild Glen."

MR. POWELL : " Lle campus. Beth am y *tackle* ? "

NICHOLAS : " Fe ofala i am bobpeth."

MR. POWELL : " Paid anghofio'r *bait*."

NICHOLAS : " Gadewch bobpeth yn fy llaw i. Rwyn hen bysgotwr. Bydd gennyf abwyd i ddal pob math o bysgod. (*Yn edrych ar Jenkin*). Pysgod bychain (*yn aros*), a physgod mawrion ."

MR. POWELL (*yn codi gydag anhawsder, ac yn cerdded gyda Nicholas at y drws*) : " Mae whisky go dda yn y Red Cow, yn agos i'r fan, ond oes ? "

NICHOLAS : " Oes, oes, a digon o ddwr yn yr afon (*aros*) i ddal pysgod."

MR. POWELL : " Ond dim dwr yn y whisky, cofia. *I like my whisky neat.*"

NICHOLAS : " Na, na, whisky yn gynta yn y Red Cow a'r dwr wedi hynny."

MR. POWELL : " Jawch, fachgen i, pe bawn ni cwmpo oddiar y plank i'r dwr, byddai yno bysgodyn rhy fawr i ti ei ddal, eh ! " (*Yn chwerthin*).

NICHOLAS : " Pop peth yn iawn, Mr. Powell, 'r ydych mewn dwylaw diogel (*yn edrych ar Jenkin*)."

MR. POWELL : " Gwn hynny. *You are a good friend, a friend in need, a friend indeed.* Bore da."

NICHOLAS : " Bore da, Mr. Powell. Bore da, Jenkin."

JENKIN (*yn dawel*) : " Bore da."

MR. POWELL (*yn eistedd*) : " *Phone for a Taxi ;* dwyt ti ddim yn dod gatre i gael *lunch*? Mae'n un o'r gloch."

JENKIN : " Na. Dwedwch wrth Ceinwen, hefyd, y byddaf yn lled hwyr heno. (*Yn myned at y Phone*). 261 *please. Hullo, this is Powell, Dale Street ; send me a taxi at once.*" (*Mr. Powell yn cau ei lygaid ac yn hanner cysgu. Ymhen ychydig mae'r Taxi wrth Jenkin yn ei gynorthwyo. Wedi cau y drws, yn troi ei wyneb tuag at y gynnulleidfa. Yna saf yn syth am funud, gan edrych i'r gwacter, a gofyna*) : " Llwyddiant neu aflwyddiant ? Mae'r Rubicon wedi ei chroesi."

LLEN.

ACT V.

Golygfa 1.—*Sitting Room "Cymrofa," cartre Mr. Powell, Jenkin, a Ceinwen. Os yn bosibl, French Window yn y cefn yn agor i'r lawn. Curtains wedi eu tynu ar draws y ffenestr ; Couch yn y pen blaen, ar y llaw chwith ; lle tan tu ol i'r Couch ; drws yn arwain i'r ystryd tu ol i'r lle tan. Yn y pen blaen, ar y ddehau, Cryd, a chadair isel ar yr ochr ddehau i'r cryd. Bwrdd bychan tu ol i'r cryd wrth y mur. Drws tu ol i'r bwrdd yn arwain i'r rhannau ereill o'r ty. Amser, hwyr y dydd. Elen, hen gariad Jenkin, merch ieuanc, tua* 24 *oed, yn eistedd ar y gadair isel, ac yn siglo'r cryd. Ei llaw chwith yn chwarae a'i gwallt. Mae yn edrych tua'r gynulleidfa a golwg wyllt a digofus arni. Daw ei gwallt i lawr dros ei hys gwyddau yn annhrefnus. Yn y fan gesyd ei dwylaw dan ei gen, a dywed—*

Elen : " Oh, mae calon merch yn rhyfedd ; er iddo'm bradychu, rwy'n hoffi clywed ei lais ; rwy'n caru sŵn ei droed ; mae'm calon yn curo'n wyllt wrth edrych ar ei wyneb. Yma gwelais y nefoedd yn agor, nefoedd cariad, ond heddyw mae drws y nefoedd wedi cau. Mae'r byd i mi wedi ei balmantu â drain, a maent yn brathu fy nhraed, fy nghalon, a'm henaid, ond (*yn aros tipyn, yna yn cau ei dwrn*), fe ddaw dialedd ; daw, fe ddaw dydd dial (*yna yn troi i edrych i'r cawell*). A hwn, oh, Jenkin, Jenkin, ein plentyn ni ddylai fod yma ; ond byth na byth bythoedd ni cha'r un plentyn bach ddweyd ' Mam ' wrtho i. (*Yn codi ac yn edrych tuag at y Gynnulleidfa, yn cau ei dyrnau ac yn edrych i fyny*). Beth wneir i'r dyn a werthodd, a fradychodd gariad merch ? Ateba, O Dduw, ateba ! "

(*Cnoc wrth y drws, sych ei llygaid yn frysiog, a at y drws ac agora ef*).

Nicholas : " Nos da, Elen."

Elen : " Oh, chi, Mr. Nicholas, sy' 'na ? "

Nicholas : " Ie, siwr. Odi Jenkin i fewn ? "

ELEN : " Nag yw. Mae Ceinwen ag yntau wedi mynd i visito."

(*Nicholas yn dod i fewn*).

NICHOLAS : " O'ni wedi addo i Jenkin i ddod i weld y babi."

ELEN : " O ie. Eisteddwch, os gwelwch yn dda."

(*Elen yn eistedd ar y stol, yn adrefnu ei gwallt*).

NICHOLAS : " Ma nhw'n dweyd ei fod yn dod yn debyg iawn i'w dad."

ELEN (*heb ystyried*) : " Gobeitho na fydd e. Odi, odi, mae dynion yn dweyd hynny."

(*Nicholas yn codi ac yn edrych arno, yna yn eistedd. Elen yn edrych i'r gwacter.*)

NICHOLAS (*yn edrych yn syn ar Elen*) : " Beth sy'n bod ? Maddeuwch i mi, ond 'dych chi ddim yn hapus iawn heno. Beth sy'n bod ?"

(*Elen yn gosod ei dwylaw dan ei gen ; yn curo ei throed ar y llawr, ond yn dweyd dim*).

NICHOLAS : " Alla i'ch helpu ? "

ELEN : " Na 'allwch."

NICHOLAS : " I chi'n siwr ? Mae gen i brofiad lled helaeth."

ELEN : " Ddaru chi riod brofi beth wy yn mynd drwyddo."

NICHOLAS : " Beth yw hynny ? "

ELEN : " Rhywbeth gwaeth nag angau."

NICHOLAS : " Gwaeth nag angau ! Amhosibl."

ELEN (*yn gadarn*) : " Nag yw ddim yn amhosibl. Ond dyna, beth mae hen lanc fel chi yn gwybod am galon ddrylliedig merch ieuanc ? "

(*Nicholas yn dweyd dim*).

Mae cariad, Mr. Nicholas, fel Duw ei hun, yn gallu creu nefoedd, ond mae twyll, fel y diafol, yn gallu damnio." (*Distawrwydd*).

Elen (*yn troi i edrych ar Nicholas*) : " Beth ddylid wneud i'r dyn sydd wedi torri calon merch ? "

Nicholas : " Does yr un gosp yn rhy drwm."

Elen : " Y chi, y dynion, yn gallu caru merch â'i rhoi i fyny a charu un arall yn hawdd wedi hynny, ond dy ni ddim mor lwcus. Mae menyw yn caru dyn â'i holl galon, a'i holl enaid, ac mae y nefoedd yn agored iddi, ac angelion Duw yn ymweld â hi ; does dim nad yw yn foddlon gwneud a dioddef er mwyn y dyn mae'n garu, ond os (*yn aros*) O ! Dduw ! Beth ddylid wneud——ond dyna, 'wedwch chi ddim yn erbyn Jenkin."

Nicholas : " Jenkin, dwetsoch chi ? "

Elen (*yn galed*) : " Ie, Jenkin Williams. Chredech chi ddim hynny am Jenkin ? "

Nicholas : " Wel———" (*Yn troi ei wyneb oddiwrthi*).

Elen : " Na, na neb arall chwaith."

Nicholas (*yn edrych ar Elen*) : " Os ydych mor anhapus, pam y chi'n aros yma ? "

Elen : " O, Mr. Nicholas, daethum yma o Llwynrhedyn, yn blentyn amddifad, yn 12 oed. Dyma fy nhgartref, a mae Mr. Powell wedi bod yn dad a mam i mi. (*Yn aros*). Gallwn, gallwn yn hawdd gael lle arall, ond (*yn galed*) mi arosa yma ; gwnaf, mi arosaf yma am ychydig amser eto. (*Yn edrych tua'r gynnulleidfa yn synfyfyriol. Nicholas yn edrych yn syth i'w gwyneb a golwg cynllwynwr arno*). O ni mâs yn y Parc ddo, a gwelais hen bryfyn hyll yn llusgo tuag ato i ; fe ddâth yn nes, yn nes, teflais ef i lawr (*yn gadarn*) dodais y nhrod arno, a———a dyna wnaf â Jenkin, ie, ac efalle, â'i etifedd hefyd. Fe fyddai i mas â'r babi ma ryw ddiwrnod, a——fe fydd damwain yn digwydd."

(*Elen yn codi ar ei thraed, cerdded y llwyfan, yna yn cau ei dwrn yn wyneb Nicholas*

O Dduw, peidiwch chwi ar eich bywyd ddweyd gair, neu—"

(*Nicholas yn codi, yn cydio yn ei braich, ac yn ei arwain i eistedd ar y stol*).

NICHOLAS: "Elen, does rhaid i chi ofni dim. Mae gormod o le genni i fod yn elyn i Jenkin."

ELEN: "Gelyn! Ond own i'n credu'ch bod yn gyfeillion?"

NICHOLAS: "Tut tut, does dim lle i gyfeillgarwch ar y *Stock Exchange*, ond mor bell a ma busnes yn galw am hynny A ma Jenkin wedi bod ar fy ffordd i lawer gwaith."

ELEN: "A byddech yn falch iawn i'w gael oddiar y ffordd?"

NICHOLAS: "Byddwn."

ELEN: "Beth allwch chi neud?"

NICHOLAS: "Rhywbeth llawer gwell, i chi a minnau, na dial ar y plentyn—dial ar Jenkin ei hun."

ELEN: "Ia; O fe ddylai ddioddef yn hallt."

NICHOLAS: "A chael elw mawr, gyda llaw."

ELEN: "Ewch ymlaen."

NICHOLAS: "Tua pythefnos yn ol danfonodd Jenkin filoedd o Circulars allan i Gustomers Mr. Powell, heb yn wybod i Mr. Powell, yn eu hannog i brynu shares nad ynt mewn gwirionedd yn werth dim, yn y Spaska Oil Co. Bydd Jenkin yn siwr o wneud miloedd o bunne, am ei fod yn prynu yn rhad ac yn gwerthu yn ddrud. Nawr, cyn bo hir, fe ddaw y Customers i weld y tric, a fe fydd na le ofnadwy; ond bydd Jenkin wedi gwneud digon o arian, a bydd yn hidio dim, ond fe fydd enw da Mr. Powell a'i fusnes wedi mynd am byth."

ELEN: "A dyma beth mae mab y tad a'r fam duwiol yn gallu gwneud?"

NICHOLAS: "Nawr, gellwch bygwth Jenkin y bydd i chwi ddatguddio pobpeth os na rydd i chwi cheque o £2000."

ELEN : " Felly, gallaf gael y trechaf arno, a chyfoethogi fy hunan 'run pryd—ŷchi siwr y bydd yn foddlon ?

NICHOLAS : " Merch fach i, mae Jenkin yn sefyll i wneud fortune fach, a bydd £2000 ond fel dyferyn o ddwr o'r afon. Bydd rhaid iddo fod yn foddlon. Gallwch ei orfodi i blygu i'ch ewyllys, a gallwn ninnau wneud £1000 yr un."

ELEN : " Dialedd ! ie, dialedd ! Mae fel gwin newydd i ddyn bron marw. Diolch, Mr. Nicholas. Fe ngwerthodd i am arian, a dyma Duw yn ei dalu yn ol yn ei arian ei hun. Fe ga wneud hyn, neu tynnaf ei dŷ yn gandryll am dano."

NICHOLAS : " Wela i ddim argoel fod Jenkin yn dod, ac efallai mai gwell iddo beidio ein gweld gyda'n gilydd. Does dim eisieu i chwi ddweyd dim o ble cawsoch y wybodaeth yma. Lle mae nhw, cŷd ? "

ELEN : " O, wedi mynd i weld Mr. a Mrs. Stephens."

NICHOLAS (*yn codi*) : " Dewch i'm gweld yn ŷr offis mewn diwrnod neu ddau, os gellwch."

ELEN : " Gwnaf."

NICHOLAS : " Nos da."

ELEN : " Nos da."

(*Elen yn eistedd eto yn y gadair, yn edrych i'r pellter, yn wyllt yr olwg. Ym mhen ychydig funudau mae Ceinwen a Jenkin yn dod i fewn, ond Elen yn gweneud fawr o sylw ohonynt. Jenkin yn dod ymlaen, yna yn troi i edrych yn ei gwyneb.*)

JENKIN : " Wel, Elen, beth sy'n bod ? Ychi'n dost ? "

ELEN : " Nagw."

JENKIN : " O, os rhywun wedi bod yma heno ?"

(*Elen yn dweyd dim*).

CEINWEN : " Fe gwrddson â dyn tu fâs, a chredodd Jenkin mae o'n tŷ ni y daeth e."

JENKIN : " 'Rodd hi'n dywyll, ond allwn i dyngu mai Nicholas oedd e. Fe ddwedodd y byddai'n dod i weld y babi

ryw noson. Ond (*yn gwenu*), efallai mai cariad newydd oedd e ?"

ELEN : " Falle, taw e."

(*Tra mae hyn yn cymeryd lle mae Ceinwen yn ymddadrus, ac yn edrych ar y babi*).

CEINWEN : " Odi'r babi wedi bod yn dawel, Elen ? "

(*Elen yn codi ac yn gosod ei gwallt mewn trefn*).

ELEN : " Odi."

CEINWEN : " Odi nhad wedi dod ? "

ELEN : " Nag yw. (*Ceinwen yn ymddangos yn ofidus*). Ca i osod swper ? "

CEINWEN : " Na, dim, diolch. Gellwch ddod â dishgled o goffee a biscuit neu ddwy. Fynnwch chi rywbeth, Jenkin ? "

JENKIN : " Dim, diolch."

(*Jenkin yn eistedd ar y couch ac yn ceisio darllen papur, ond yn methu*).

(*Elen yn mynd allan*).

CEINWEN : " Mae rhywbeth mawr allan o le ar Elen heno."

JENKIN : " Oes."

(*Elen yn dod i fewn, ac yn gosod y tray ar y bwrdd, ac yn ymestyn y cwpan i Ceinwen*).

JENKIN (*yn wawdlyd*) : " Elen, beth sy'n bod ? Ryw garu od sy'n gwneud merch mor sur yr olwg."

CEINWEN : " Peidiwch, Jenkin, chwarae â theimladau merch."

(*Elen yn troi i edrych ar Jenkin wrth ateb*).

ELEN : " Ie, mae'n bosibl chwarae â thân, a llosgi'ch bysedd."

(*Yn myned allan. Ceinwen a Jenkin yn edrych ar ei gilydd*).

CEINWEN : " Beth sy'n bod ar Elen ? Mae rhywbeth mawr allan o le ; mae fel hyn ers misoedd."

JENKIN : " Yn enwedig er pan annwyd y babi."

CEINWEN : " Carwn pe bae yn cael gafael ar ddyn caredig, teilwng ohonni ei hun."

(*Jenkin yn gwingo, ond heb ddangos i Ceinwen*).

CEINWEN (*yn codi*) : " Wel, Jenkin, rwy'n mynd i orffwys. Efallai yr arhoswch i lawr nes bod nhad yn dod ? "

JENKIN : " Gwnaf."

(*Ceinwen yn mynd a'r babi*).

(*Jenkin yn arwyddo anghysur mawr ; yn methu darllen. Ymhen ychydig daw Elen i fewn a chydia yn y tray. Jenkin yn troi i edrych arni, hithau yn edrych i'w wyneb yntau.*)

JENKIN : " Wel, Elen, dwedwch beth sy'n bod ? A ydych wedi blino bod yma ? (*Yna yn edrych ar y papur*). Peidiwch a gadael i ni eich cadw, os ydych am fynd."

ELEN : " O'n i yma o'ch blaen chwi."

JENKIN : " Falle hynny ; ond y fi fydd yma hwyaf."

ELEN (*yn sarug*) : " Gwn hynny. Y chi wedi chwarae eich cardiau yn fedrus iawn ; wedi gwneud nyth gysurus iawn ; ond pa fodd ? "

JENKIN : " Pa fodd ?'

ELEN : " Nid wrth ateb gweddiau eich tad duwiol ; nid wrth gadw eich dillad yn wynion."

JENKIN : " Beth ŷ chi'n feddwl, ferch ? "

ELEN (*yn uwch*) : " Wedi gwerthu un ferch ieuanc, yn awr yn ysbeilio eich cyfaill o'i eiddo a'i enw da."

JENKIN : " Merch y Cythraul ! Gofalwch be chi'n ddweyd, neu fe fyddwch yn llaw'r *police* yn fuan."

ELEN : " Gwell i chwi beidio son am y *police*, neu—"

JENKIN : " Neu beth ? "

ELEN : " Jenkin Williams, ŷ chi wedi llwyddo yn rhyfedd iawn yn y byd yma, o fod yn fab tlawd i dad a mam tlawd."

JENKIN : " Gadewch mam a nhad yn llonydd."

ELEN : " Gwnaf ; maent yn rhy dda i gael eu henwi gyda'r un anadl a'i mab."

JENKIN : " Tewch."

ELEN : " Na wnaf. Mi ddwedaf fy stori. Galwch ar Ceinwen i'w chlywed, os y mynnwch. Jenkin Williams, flynyddau yn ol credais fy mod yn caru y dyn ieuanc goreu ar y ddaear, ond trodd allan yn fradwr, yn leidr ; gwerthodd ei gariad ar allor bydolrwydd, ac yn awr——"

JENKIN : " Yn awr beth, ferch ? "

ELEN : " Mae dialedd yn eich canlyn. Dialedd Duw."

JENKIN (*yn ofnus*) : " Dialedd ! "

ELEN : " Jenkin Williams, gwnewch allan cheque o £2000 i mi ar unwaith."

JENKIN (*yn chwerthin yn wawdlyd*) : " Nid i'r *Police Station* rhaid mynd â chi, ond i'r *Asylum*."

ELEN : " Peidiwch chwerthin yn rhy gynar. *He laughs best who laughs last.* Gellwch chwerthin heddyw ; mae'r scheme newydd yn dod â miloedd o bunnau i fewn ond (*yn araf*) mae'r gath, weithiau, yn dod o'r cwdyn."

JENKIN : " Y gath yn dod o'r cwdyn ? "

ELEN : " Ie, a'r olew yn pallu yn y llestr, a'r dyn yn cael ei hunan yn y tywyllwch.

(*Jenkin yn syrthio'n ol mewn syndod*).

Ha ! Y chi'n gweled gole coch ?

(*Elen yn cerdded tua'r drws, yna yn troi i edrych ar Jenkin*).

Jenkin Williams, mae eich tad a'ch chwaer yn dod yma yfory i weld y babi, ac hefyd i weld sut ŷ chi'n dod ymlaen (*gyda*

gwawd). Byddaf finnau yn ymadael oddiyma am byth mewn diwrnod neu ddau, ond byddaf yn mynd â Cheque o £2000 yn fy llaw, neu bydd——."

JENKIN : "Dewch yma. Pwy sydd wedi bod yma heno ?"

ELEN : "Fy nghariad newydd. Ha ! Ha !" (*Yn wawdus*)

LLEN.

Golygfa 2.—*"Cymrofa," prynhawn yr ail ddydd wedi yr olygfa flaenorol. Mr. Powell a Ceinwen yn eistedd allan ar y lawn. Jenkin yn eistedd ar y Couch ac yn ceisio darllen ; ei dad yn ysmygu ac yn eistedd gerllaw Jenkin. Yn y fan daw Ceinwen i fewn, a dywed :—*

CEINWEN : "Mr. Williams, pam ŷ chi'n eistedd i fewn ar ddiwrnod mor braf, mae'n hyfryd mas ar y lawn. A mae nhad yn disgwyl am danoch."

MR. WILLIAMS (*yn troi i edrych ar Ceinwen*) : "O'r gore, merch i ; mi ddof yn y man."

CEINWEN : "Cofiwch, peidiwch bod yn hir, te. (*Daw Morfydd i fewn a vases yn llawn blodeu ; tra mae yn eu gosod yn eu lleoedd, mae ei thad yn siarad a Jenkin, hithau yn troi i wrando*).

MR. WILLIAMS : "Wel, Jenkin, machgen i, rwyt ti'n byw mewn tŷ hardd. (*Yn edrych oddeutu*). Oet ti'n awyddus iawn am gael pethau'r byd ma, ac yn wir maent yn brydferth. Rwyt ti wedi llwyddo'n rhyfedd, a mae gen ti le i ddiolch am bethau na wyddai dy fam, druan, ddim am danynt,—ond wyt ti'n siwr nad wyt ti wedi colli rhywbeth mwy wrth ymladd am danynt ?"

Morfydd (*yn dod ymlaen*) : " Nhad, edrychwch, yn wir, dyma flode gwynion prydferth."

(*Ei thad yn cydio mewn blodyn, ac yn edrych arno*),

Mr. Williams : " Ie'n wir, merch i. Mae yn brydferth iawn. Gwyn—purdeb." (*Yn edrych arno*).

Morfydd : " Gadewch i fi ei osod yn eich côt. Dyna, ŷ chi'n smart, nawr. (*Yna, yn crocsi at Jenkin*). Jenkin, aros fynud, cwyd dy ben."

(*Jenkin yn gomedd, hithau yn ceisio gosod y blodyn i fewn ac yn cael anhawsder i wneud hynny*).

Morfydd : Jenkin, Jenkin, beth sy'n bod, mae'n anhawdd ei gael i aros i fewn. Dyna fe, o'r diwedd ; ond dyw e ddim yn dy suito di hanner cystal a nhad. (*Yna yn troi ac yn myned allan i'r lawn*). Dewch allan, eich dau, beth ŷ chi'n eistedd fewn fan yma ? "

(*Mae Elen yn dod i fewn drwy'r drws ar y llaw ddehau, wedi gwisgo yn barod i ymadael. Jenkin a'i dad yn troi i edrych tua'r drws ; ei dad yn codi, ac yn dweyd*) :—

Mr. Williams : " Wyt ti am siarad gair ag Elen cyn ei bod yn madael, fallai ? "

Jenkin : " Ydw."

Mr. Williams : " O'r gore, mi â i allan. (*Yn codi ac yn cychwyn, yna yn dweyd wrth Elen*) :—Elen fach, mae'n ddrwg iawn genni glywed eich bod yn madel, wedi bod yma cyhyd. Wedi bod yma er yn blentyn ! Pam ŷ chi'n mynd ? Gobeithio nad oes dim byd annymunol wedi digwydd yn peri i chwi ymadael fel hyn. (*Elen yn fud, Mr. Williams yn siglo ei llaw*). Wel, bendith Duw arnoch chi, merch fach i."

(*Yn myned allan yn araf. Jenkin yn tynu'r blodyn allan o'i got, ac ymhen eiliad neu ddwy yn dweyd*) :—

Jenkin : " Wel, ŷ chi'n mynd, te ? "

Elen : " Ydyw ; i chwilio am feistr gonest."

Jenkin : " Wedi gorffen eich gwaith, wedi taro Sisera a hoel yn ei dalcen, fel Jael gynt."

ELEN : " Os y mynnwch. Do, fe darawodd un oedd yn erlid pobl Duw—lladdodd ef."

JENKIN (*yn wawdlyd*) : " A bu gorfoledd mawr. Lle ŷ chi'n mynd ? "

ELEN : " Yn ol i Gymru, i rodio daear rhy sanctaidd i draed dynion o'ch bath chwi, i blith yr adar a'r blodau ; ac ni wisgwyd Jenkin Williams, er ei holl gyfoeth, fel un o'r rhai hyn. Arhoswch chwi yma yn y budreddi, i fagu plant i ddilyn eich traed santaidd."

JENKIN : " Gadewch y plentyn bach yn llonnydd ; y mhlentyn i ydyw."

ELEN : " Ie, ond (*yn wylo*) ein plentyn ni ddylai fod yma. O fel yr oeddwn yn edrych ym mlaen i fod yn fam i'ch plant."

JENKIN : " Aroswch, dyna ddigon ; peidiwch agor hen glwyf."

ELEN : " Na, nid digon, dwedaf y cwbl, ac yna af o'ch golwg. O, nad allwn eich cau allan o'm bywyd am byth."

JENKIN : " Elen Evans, maddeuwch i mi ; feddyliais i erioed——"

ELEN : " Naddo, wrth gwrs ! O, naddo ! Allwedd cariad agorodd ddrws bywyd i mi, ac, O ! roedd yn brydferth ; ond heddyw â llaw bradwr yr ydych yn ei gau yn fy ngwyneb ; yn damsang perl fy nghariad pur yn y baw dan eich traed."

JENKIN : " Elen, Elen, peidiwch, da chwi."

ELEN : ,, Darfu i'ch tad duwiol ofyn bendith Duw ar eich priodas, ond cadwyn o aur a'ch clymodd, ac yr ydych heddyw, er mwyn yr aur brwnt yma, yn gwerthu eich cyfaill goreu, cyfaill a'ch cymerodd o dan ei aden pan yn blentyn tlawd, fel y cymerodd fi i'w gartref yn blentyn amddifad."

JENKIN : " Oh, Elen, Elen, 'rydych yn fy lladd—peidiwch, peidiwch, da chwi."

ELEN : " Aeth eich mam drwy borth angeu i ddwyn creadur fel chwi i'r byd, (*Jenkin yn codi ei ddwylaw i fyny i geisio ei hatal, yna yn syrthio mewn dagrau ar y couch*). Wrth fy ni-anrhydeddu i 'rydych yn di-anrhydeddu cariad, yn di-anrhydeddu pob merch ieuanc, yn di-anrhydeddu eich gwraig, yn di-anrhydeddu eich mam, ac—o, fy nghalon, fy nghalon fach (*yn gosod un llaw ar ei chalon, y llall ar y bwrdd i'w dal rhag syrthio. Y ddau yn wylo am eiliad neu ddwy, yna Jenkin yn tynu y Cheque o'i logell, yn codi yn araf, ac yn cerdded tuag ati ; yn cynyg y Cheque iddi, ac yn dweyd yn dawel, ond heb edrych arni*) :—

JENKIN : " Ewch, ewch."

(*Elen yn edrych ar y Cheque am eiliad, yna yn ei gymeryd, a chan edrych i wyneb Jenkin yn dweyd gyda dirmyg, wrth ddarnio y Cheque*) :—

ELEN : " Gellir prynu ambell ddyn ag aur ac arian, ond (*yn taflu y darnau i lawr*) nid wyf fi ar werth."

(*Saf Jenkin fel pe wedi ei syfrdanu. Yn raddol daw goleu newydd i'w wyneb, yna plyga o flaen Elen a chusana ei llaw. Ymhen ychydig, cwyd i fyny a dywed*) :—

JENKIN : " Arhoswch am funud, os gwelwch yn dda."

ELEN : " Lle chi'n mynd ? "

JENKIN : " Cewch weld yn y man."

(*Ymlusga tua'r French Window geilw ar ei dad*), " Nhad, dewch yma."

(*Daw ei dad i fewn, gwel fod rhywbeth yn bod, a gofyna*):

MR. WILLIAMS : " Jenkin, machgen annwyl i, beth sydd allan o le ? "

JENKIN : " Galwch ar y lleill i'r tŷ."

(*Ei dad yn myned allan ; Elen yn eistedd i lawr ger y bwrdd*).

Ceinwen (*yn rhuthro i fewn, ac yn cydio yn ei fraich gan edrych i'w wyneb*) : " Jenkin annwyl, dwedwch, dwedwch, beth sy'n bod ? Eisteddwch i lawr."

(*Yna, daw Morfydd, Mr. Powell, a Mr. Williams i fewn*).

Mr. Powell (*yn edrych ar Jenkin ac Elen*) : " Bachgen, Jenkin, esbonia beth sydd wedi digwydd ? "

Jenkin : " Y mae rhywbeth mawr wedi digwydd. Eisteddwch i gyd, os gwelwch yn dda ; esboniaf y cwbl. (*Un neu ddau ar eu traed*). Mae Elen yn ein gadael—yn ein gadael am Gymru annwyl, lle buoch chwi, nhad, yn ceisio fy hyfforddi yn llwybrau cyfiawnder. Mae Elen yn mynd yn ol â'i dillad yn wynion ; o, nad allwn innau fynd yn ol yn yr un modd. (*Ei dad yn amlygu syndod a gofid*). Mr. Powell, 'dych chi ddim yn proffesu crefydd, ond rwyf fi yn broffeswr crefydd. Mor bell ag y gwn i, wnaethoch chwi gam â neb erioed. 'Rydych wedi bod yn gyfaill caredig i Elen a minnau am flynyddau, ond rwyf fi yn talu am eich caredigrwydd drwy geisio eich ysbeilio o'ch enw da a'ch arian am byth. (*Pawb ar eu traed, ac yn edrych mewn syndod mawr ar Jenkin*). Fe werthodd Judas ei gyfaill goreu am arian ; rwyf finnau wedi ceisio gwneud yr un peth. (*Yn codi ei law*). Arhoswch ! Eisteddwch i lawr ; rwyf am gael y tân uffernawl allan o'm mynwes—dwedaf y cwbl. Cefais pob mantais i fod yn ddyn da a rhinweddol, ond roeddwn yn fachgen tlawd, ac yr oedd ymddygiad annheilwng yr eglwys gartref yn chwerwi fy ysbryd gymaint nes y penderfynais ddod yn gyfoethog ar unrhyw draul. Daethum yma ; arweiniodd Satan fi, ym mherson Mr. Nicholas, i fynydd uchel (*yn aros*), a syrthiais i lawr i'w addoli. Ychydig ddiwrnodau yn ol cydsyniais â Nicholas i ddanfon Circulars allan at Gustomers Mr. Powell, heb ei wybodaeth, bod Mr. Powell yn cynnyg shares oeddwn wedi eu prynu yn y Spaska Oil Co. am 50, am 80, ac yn hannog i brynu, oherwydd y byddent yn fuan yn werth 100 punt. Twyll i gyd ; â'r shares byth i fyny, a phan ddaw y clients i wybod hyn bydd enw da Mr. Powell yn wawd a dirmyg, a daw y fusnes i lawr yn gandryll ar ei ben."

(*Jenkin yn eistedd. Ceinwen a Morfydd yn wylo ; Mr. Williams a'i ben rhwng ei ddwylaw ; Mr. Powell yn edrych yn*

syn i wyneb Jenkin. Distawrwydd am funud, yna dywed Mr. Powell) :—

Mr. Powell (*yn codi*) : " Nicholas ddwedodd y cynllun yma wrthot ti ? "

Jenkin : " Ie, ond cydsyniais ag ef."

Mr. Powell (*yn cydio yn ei law, Jenkin yn ceisio ei atal*) : " Diolch i Dduw dy fod wedi cael nerth i gyfaddef dy fai, a—"

Jenkin : " Mr. Powell (*yn cyfeirio at Elen*), diolchwch i Elen. Elen annwyl ! Dyna fy angel gwarcheidiol, a wrthododd gael ei llwgrwobrwyo âg arian. Ei dewrder moesol hi a'm hachubodd o'r pydew."

Mr. Powell : " Diolch i Dduw am hynny ; a diolch hefyd, nad yw yn rhy ddiweddar i osod pethau mewn trefn. Danfonaf at bob Customer heddyw, yn dweyd *my information was not well founded. All losses will be promptly made up.* (*Yn troi at Elen*). Elen, arhoswch yma, peidiwch â mynd ; dyma eich cartref ers blynyddau."

Jenkin (*yn codi ac yn myned at Elen*). : " Ie, Elen annwyl, arhoswch yma i helpu un gwan, un ydych wedi ei achub o law y llew."

Elen (*yn codi*) : " Na, gwell i mi fynd."

Jenkin : " Na, na, peidiwch mynd. 'Rydych wedi bod megys mam i mi yn fy nhreial mawr. (*Mr. Powell a Mr. Williams yn plygu eu pennau*). Arhoswch yma i'm helpu eto i gerdded yn ol eich traed."

Elen : " Peidiwch, os gwelwch yn dda. Rwyf wedi bod drwy'r tân fy hun—rhaid i mi fynd i fyd mwy tawel ac esmwyth am ychydig amser. Fe ofala Duw eich mam a Duw eich tad am danoch. Ymddiriedwch yn llwyr ynddo, a chewch nerth i wneuthur ei ewyllys byth mwy."

Mr. Powell : " Wel, Elen, os ydych yn benderfynnol o fynd, cofiwch y bydd drws eich hen gartref yn wastad ar led agored i'ch croesawi yn ol. Rwyn dod gyda chwi at y trên."

(*Elen yn siglo llaw â Jenkin, yna a'i dad ac a Morfydd, yna â Ceinwen. Mr. Powell a Ceinwen yn myned allan gyda Elen. Saif Jenkin, ei dad, a'i chwaer, i edrych ar Elen yn mynd allan, yna y tri yn plygu eu pennau*).

Jenkin (*ei ddwylaw ymhleth ac yn edrych i fyny*) : " Megys trwy dan."

LLEN.

3 0112 073152412